Diwrnod Menter Bl.12

Dydd Gwener, Medi 16eg fe dreuliodd blwyddyn 12 ddiwrnod o dan ofal Gyrfa Cymru. Prif dasg y grwpiau oedd troi busnes gwerthu faniau oedd mewn dyledion fusnes llwyddiannus.

Rhannwyd y disgyblion i grwpaiu o chwech. Y dasg gyntaf a brofodd yn anodd i rai oedd meddwl am enw i'r cwmni oedd yn cychwyn gyda'r lythyren oedd ar y bwrdd. Fe dderbyniodd pob unigolyn swydd arbennig a olygai bod gan bawb rywbeth i wneud!

Dechreuodd pob grŵp gyda faniau gwyn plaen. Roedd rhaid eu gosod gyda'i gilydd – tasg anodd iawn! Yna roedd rhaid ceisio eu gwerthu am gymaint o arian a oedd yn bosib i'r delwyr.

Cafwyd chwech cyfnod i greu y faniau ac yn ystod pob cyfnod roedd cystadleuaeth yn ogystal a phroblem yn gwynebu pob grŵp. Cafwyd cystadleuaeth am y gweithle tacsluaf ac am y fan fwya creadigol. Yn ystod y diwrnod fe aeth y trydan i ffwrdd ac o ganlynaid fe redodd paw bi brynnu generadur a gostiodd £30,000. Roedd cost yr adnoddau yn amrywio o fewn pob cyfnod cynhyrchu. Costiodd y faniau £5,000 yr un a pinnau ffelt yn costio £6,000 yr un!

Roedd y delwyr yn aml iawn yn gofyn am faniau penodol megis faniau hufen iâ, faniau'r fyddin a faniau gwerthu sglodion. Byddai'r grwpiau gwahanol wedyn yn cystadlu am y contract i gynhyrchu'r faniau. Yn ystod y cyfnod olaf o gynhyrchu gofynodd y delwyr am faniau creadigol ac yn wir fe ddaeth sawl un unigryw i law!

Grŵp C oedd ar y brig ar ddiwedd y diwrnod a dathlon nhw drwy fwyta bocs mawr o 'Celebrations'.